**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

19 Gorffennaf 2018

Annwyl Mark

**Gwybodaeth bellach yn dilyn y sesiwn graffu**

Diolch i chi am ddod gerbron y Pwyllgor gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn ein cyfarfod ddydd Llun 2 Gorffennaf 2018.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurhad a rhagor o fanylion ynghylch nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn. Dyma restr o'r materion ynghyd â'n cwestiynau.

## Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd

A allwch chi gadarnhau'r swm sydd ar gael yn y gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 a faint o arian sydd wedi cael ei ddyrannu?

A allwch chi roi dadansoddiad o'r dyraniadau fesul prosiect a gwybodaeth bellach am bob prosiect, gan gynnwys yr hyn yr ydych yn disgwyl i bob prosiect ei gyflawni?

## Paratoadau Brexit: cyllid canlyniadol

Yn ystod y cyfarfod, cyfeiriasoch at ddyraniad canlyniadol o £21 miliwn, o ganlyniad i wariant gan Lywodraeth y DU ar baratoadau Brexit.

A allwch chi roi manylion pellach ynghylch sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu rhwng adrannau, a phwrpas y dyraniadau hynny?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

## Cyd-bwyllgor yr UE a’r DU

Mae’r Cytundeb Ymadael drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cyd-bwyllgor yr UE a’r DU i weithredu a chymhwyso’r Cytundeb Ymadael.

A allwch chi egluro pa un a yw’r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ai peidio ynghylch:

- cyfansoddiad Cyd-bwyllgor yr UE a’r DU; a
- rôl Llywodraeth Cymru o ran Cyd-bwyllgor yr UE a’r DU?

Os cafwyd trafodaethau o’r fath, a allwch chi rannu manylion y trafodaethau hynny â’r Pwyllgor?

## Cyfrifoldebau’r Cabinet dros Brexit

Gwnaethoch gytuno i roi manylion pellach i’r Pwyllgor ynghylch sut mae cyfrifoldebau am waith mewn perthynas â Brexit yn cael eu rhannu ar draws Llywodraeth Cymru, er mwyn cynorthwyo’r Pwyllgor i gyfarwyddo ei waith craffu yn briodol.

A allwch chi roi i’r Pwyllgor:

- nodyn ar sut y mae cyfrifoldebau Brexit yn cael eu dosbarthu ar draws Llywodraeth Cymru h.y. y Prif Weinidog, fesul Ysgrifennydd Cabinet a/neu fesul Gweinidog (fel y bo’n briodol); a
- rhestr o’r strwythurau rhynglywodraethol a sefydlwyd y tu allan i strwythurau'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion sy’n ystyried materion sy’n ymwneud ag ymadael â’r Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, soniasoch am y fforwm rhynglywodraethol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ymwneud ag ef.

Diolch am ystyried y materion hyn. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.